

Croeso...

...i ail fwletin amgylchedd.com – dolen gyswllt i fudiadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn hybu'r Gymraeg ym maes yr amgylchedd. Ryw flwyddyn yn ôl glaniodd y bwletin cyntaf yn eich blychau mewnol ac o ddarllen ymlaen cewch wybod am y lluo o bethau sydd wedi digwydd yn y Gymraeg ym maes yr amgylchedd ar hyd a lled Cymru yn y cyfamser. Bydd y rhai craff yn eich mysg yn sylwi na chyhoeddwyd bwletin y gaef yn ôl ein haddewid, oherwydd roeddem yn gweithio'n ddygn ar ychwanegu at y wefan – darllenwch am y gwelliannau hyn isod.

Gobeithiwn y cewch fudd o bori trwy'r bwletin hwn a chofiwch adael inni wybod am unrhyw brosiectau, newyddion neu ddiwyddiadau fel y gallwn eu cynnwys yn y bwletin nesaf drwy: post@amgylchedd.com. Gofynnwn ichi hefyd anfon y bwletin hwn ymlaen at unrhyw un a allai fod â diddordeb ynddo.

Gwefan amgylchedd.com

Sefydlwyd gwefan er mwyn bod yn ffynhonnell ddiwyddiaid o wybodaeth am y ffordd mae'r Gymraeg yn cael ei rhoi ar waith yn y maes amgylcheddol.



Termau a chyhoeddiadau

Nid unrhyw rostir mo hwn ond!

Ers cryn amser mae ecolegwyr wedi gallu defnyddio'r drefn *National Vegetation Classification* wrth gyfeirio yn y Saesneg at gasgliadau o blanhigion sy'n tyfu gyda'i gilydd o dan amodau tebyg ac yn yr un math o lecynnau. Nawr, o ganlyniad i waith dygn naturiaethwyr Cymreig, mae'n bosibl gwneud hyn yn y Gymraeg. [mwy](#)




Geirfa'r Amgueddfa'n eginio

Bellach gallwch ddod o hyd i gasgliad o dermau a geiriau y mae staff Amgueddfa Cymru yn dod ar eu traws neu wedi'u bathu gyda chymorth arbenigwyr wrth iddynt fynd o gwmpas eu gwaith beunyddiol. [mwy](#)



Trawsgrifio dyddiaduron William Bulkeley, Llanfechell, Môn

Efallai bod ysgrifennu blog yn boblogaidd heddiw ond ers talwm arferai pobl gadw cofnod o'u bywydau personol ac o'r byd o'u cwmpas mewn dyddiaduron. Un o'r rhain oedd William Bulkeley o Frynndu, Llanfechell, Ynys Môn, a ysgrifennodd yn helaeth am y tywydd, ffermio a bywyd gwyllt yng nghanol y deunawfed ganrif a chyn bo hir bydd yn bosibl darllen cyfrol gyntaf ei ddyddiadur ar y we. [mwy](#)



Hawtraint Archif a Gasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor

Gwaith, hyfforddi a gwirfoddoli

Ysgoloriaethau Cyrsiau Meistr

A oes gennych awydd i astudio cwrs meistr gwyddonol drwy gyfrwng y Gymraeg? Os felly, efallai y gallech dderbyn Ysgoloriaeth Meistr gan y Coleg Cymraeg gwerth hyd at £3,000. [mwy](#)



Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd

Fel rhan o raglen gweithgareddau yn seiliedig ar y thema 'Ein byd egniol' ym mhabel wyddoniaeth Eisteddfod yr Urdd – 'Y GwyddonLe' – trefnodd Prosiect Edward Llwyd y Coleg weithgareddau hwyliog. Ymysg y rhain roedd 'Swyn y Swigod'. [mwy](#)



Cynhadledd Wyddonol Gyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynhaliwyd Cynhadledd Wyddonol Gyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ddydd Gwener 15 Mehefin ym Mhrifysgol Aberystwyth. Thema'r gynhadledd oedd 'Planed Gyfnewidiol' a chafwyd rhaglen gyflawn a hyfyr. [mwy](#)



Ar y cyd yr astudiwn y maes!

Ar benwythnos ym mis Mawrth eleni daeth myfyrwyr ynghyd o bedwar ban Cymru i ehangu eu sgiliau astudiaethau maes fel rhan o'r modiwl 'Methodoleg Maes'. Mae'r modiwl yn cael ei gynnal i fyfyrwyr sy'n astudio daearyddiaeth a phynciau amgylcheddol ym mhrifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor. [mwy](#)



Darlithwyr newydd ym maes yr amgylchedd

Mae Cynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gynllun newydd ac yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf bydd y Coleg yn cyllido 27 o swyddi drwy'r cynllun gan gynnwys sawl swydd yn maes yr amgylchedd. [mwy](#)



Newyddion

Gwnewch bob dim yn y Gymraeg megis trin a thrafod yr amgylchedd!

Ers lansio gwefan amgylchedd.com ar ei newydd wedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd (2011) mae wedi tyfu'n fwy o storfa o wybodaeth nag erioed. Os cliciwch ar amgylchedd.com cewch hyd i bopeth sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg! [mwy](#)



Cynhadledd: Bywyd Gwyllt a'r Cymry

Dydd Sadwrn 24 Tachwedd 2012 ym Mhlas Tan y Bwlch. Trefnir gan Llên Natur/Cymdeithas Edward Llwyd gyda chwmni Cofnod. [mwy](#)



Cynllun MYNED

Mae nifer o grwpiau lleiafrifol a difreintiedig yng Nghymru yn cael cyfle i fwynhau'r awyr iach a'r amgylchedd, diolch i gynllun MYNED y Cyngor Cefn Gwlad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r cynllun wedi galluogi i nifer fawr o grwpiau ar hyd a lled Cymru i gael profiadau amgylcheddol ac wedi rhoi'r cyfle i gannoedd o bobl i fwynhau cefn gwlad – llawer ohonynt am y tro cyntaf, a rhai yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. [mwy](#)



Ysgoloriaeth Geraint George – Urdd Gobaith Cymru

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon er cof am Geraint George a oedd yn amgylcheddwr, addysgwr a chyfathrebydd brwd. Roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda phobl ifanc a'u hannog i drafod a ffurfio barn am bynciau amgylcheddol yng Nghymru a thu hwnt. Trefnir yr ysgoloriaeth gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. [mwy](#)



Yr 'RSPB' yn camu ymlaen gydag argyhoeddiad!

Mae'r gymdeithas adar, RSPB Cymru, am roi mwy o bwyslais nag erioed o'r blaen ar wella ei darpariaeth ddwyieithog. Yn ddiweddar cymerodd yr elusen gam beiddgar tuag at gyflawni hyn drwy benodi swyddog cyfathrebu ychwanegol gyda chyfrifoldeb – yn wir mae'n un o'i brif ddyletswyddau – o sicrhau bod gan yr elusen **wasanaeth dwyieithog penigamp**. [mwy](#)



Cipolwg o'r newydd ar thema hanfodol yn yr Amgueddfa Genedlaethol

'Parth croeso' newydd ar gyfer hanes natur yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddatblygiadau ar lawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Mae'r gofod newydd hwn yn cynnwys creaduriaid, dail a ffosiliau anferth, ac yn rhoi cyflwyniad cyffrous i'r orielau hanes natur. [mwy](#)



Cymdeithas Edward Llwyd yn ymestyn at Gymru benbaladr

Mae Cymdeithas Edward Llwyd wedi derbyn cynnig o grant gan y Cyngor Cefn Gwlad am y dair blynedd nesaf i wireddu nifer o brosiectau cyffrous a fydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr amgylchedd. Dyma fraslun ohonynt. [mwy](#)



Symudiadau Strategol

Cyfnod newydd ym maes polisi iaith

Cychwynnodd cyfnod newydd ym maes polisi iaith yng Nghymru ddechrau mis Ebrill eleni. Daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben a chychwynnodd Meri Huws yn swydd newydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. [mwy](#)



Amgylchedd Cymru oll dan yr un faner

Ar hyn o bryd anelir at sefydlu'r Un Corff amgylcheddol ar 1 Ebrill 2013 er nad yw'r dyddiad cychwyn wedi ei gadarnhau'n bendant eto. Mae'n debyg y bydd y tri sefydliad presennol – Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru – yn parhau fel tri chorff nes bydd y corff newydd yn barod i weithredu'n llawn. [mwy](#)

